



Grantiau'r Celfyddydau i Sefydliadau

# Datblygu Busnes a Sefydliadol



Mae'r Cyngor yn ymrwymedig i ddarparu gwybodaeth mewn print bras, Braille, Arwydddeg Prydain, Hawdd eu Darllen ac ar awdio. Ceisiwn ddarparu gwybodaeth mewn ieithoedd ar wahân i'r Gymraeg a'r Saesneg ar gais.

Gweithredwn [Bolisi Cyfle Cyfartal](#).

# Datblygu Busnes a Sefydliadol

## Pwrpas

Helpu sefydliadau'r celfyddydau i fod yn fwy cadarn ac i'w cynnal eu hunain yn well.

## Beth rydyn ni am ei gyflawni

Rydyn ni'n gwybod ein bod ni i gyd yn gweithredu o dan amodau ariannol anodd. Felly rydyn ni am eich helpu chi i feithrin modelau busnes newydd a chadarnach ar gyfer sefydliadau, cwmnïau a chanolfannau'r celfyddydau neu orielau, a'ch helpu chi i wella eich effeithiolrwydd sefydliadol lle bo hynny'n briodol. Rydyn ni am eich gweld chi'n amrywio'ch gwaith a'ch arferion busnes er mwyn ei gwneud yn haws i chi oroesi yn yr hinsawdd economaidd anodd sydd ohoni.

Wrth gwrs bod prosiectau sy'n cael effaith economaidd yn bwysig, ond mae diddordeb gennym hefyd mewn prosiectau sy'n cyflawni ymchwil i'r farchnad er mwyn ehangu marchnadoedd, ac sy'n denu pobl eraill i fuddsoddi yn eich busnes. Nid oes angen i'r buddsoddiad hwn fod yn ariannol, ond gall fod am wybodaeth, rhannu arferion da, eiriolaeth a chefnogaeth.

Rydyn ni am fuddsoddi mewn pobl hefyd, trwy gynorthwyo prosiectau sy'n ymbweru ac yn taclu eich staff neu'ch corff llywodraethu i ddatblygu galluoedd eich sefydliad. Gallai hynny olygu codi arian yn well er enghraifft, neu'ch galluogi chi i fynd ar drywydd syniadau newydd sy'n gallu cryfhau'ch model busnes.

Rydyn ni am gynorthwyo prosiectau sy'n cryfhau eich sefydliad trwy ddatblygu strwythurau'r bwrdd a'r staff, ac adolygu neu ddatblygu cynlluniau busnes, systemau ariannol neu strategaethau marchnata.

Yn olaf, rydyn ni'n gwybod bod angen i sefydliadau'r celfyddydau fod ar seiliau cadarn yn ariannol er mwyn iddynt oroesi, ond mae effaith cymdeithasol ac amgylcheddol eich gwaith yn bwysig hefyd. Mae diddordeb gennym mewn prosiectau sy'n ystyried egwyddorion datblygu cynaliadwy mewn termau economaidd ac amgylcheddol.

## Camau Creadigol

A ninnau'n gorff cyhoeddus, mae'n rhaid inni yn ôl y gyfraith gasglu a monitro gwybodaeth am bwy sy'n elwa o'n harian. Cawsom wybod o'r wybodaeth a gasglasom na chyrraedd ein harian sefydliadau celfyddydol dan arweiniad pobl dduon ac ethnig a phobl anabl yng Nghymru.

O ganlyniad, rydym yn awyddus iawn i gefnogi datblygiad sefydliadau dan arweiniad pobl dduon ac ethnig a phobl anabl er mwyn iddynt fod yn wytnach ac yn fwy hunangynhaliol. Yn ei dro sicrha hyn eu bod mewn safle da i gyflawni gweithgarwch celfyddydol addas ac o safon a bod ganddynt y posibilïadau i ehangu amrywiaeth y celfyddydau yng Nghymru.

Ein diffiniad o fod dan arweiniad pobl dduon ac ethnig yw bod o leiaf 51% o uwch rheolwyr, pwyllgor rheoli, bwrdd, corff llywodraethol neu gyngor sefydliad yn ymddiffinio'n bobl dduon neu ethnig.

Ein diffiniad o fod dan arweiniad pobl anabl yw bod o leiaf 51% o uwch rheolwyr, pwyllgor rheoli, bwrdd, corff llywodraethol neu gyngor sefydliad yn ymddiffinio'n bobl anabl.

Drwy Gamau Creadigol gallwn fod yn fwy hyblyg yn y ffordd yr estynnwn gymorth ichi gyda'ch cais a'ch arwain drwy'r broses ymgeisio. Gallwn hefyd fod yn fwy hyblyg am y math o brosiect a ariannwn a faint o arian y gallwn ei gynnig ichi.

Os rydych o'r farn y gallai Camau Creadigol fod o gymorth i'ch sefydliad, darllenwch ein [Ffeithlen](#), cyn cael sgwrs gyda swyddog Cyngor Celfyddydau Cymru.

## Beth fydd ei hangen gennych

Rhaid i bob prosiect ddangos y bydd yna ganlyniadau amlwg o'n buddsoddiad. Rhaid i chi ddweud wrthym ni sut y caiff y canlyniad hwn ei fesur mewn ffyrdd clir a diffiniedig.

Mae rhagor o wybodaeth yn ein [Nodiadau Cymorth ar gyfer ceisiadau Datblygu Busnes](#) a Sefydliadol, bydd y rhain yn eich helpu chi i lenwi'ch ffurflen gais.

## Pwy gaiff wneud cais

Cewch wirio bod eich sefydliad yn gymwys i wneud cais trwy ddarllen ein dogfen [Cychwyn Arni](#).

## Y cyllid sydd ar gael

Gallwch ymgeisio am grant bach rhwng £250 a £5,000. Cewch gyflwyno cais am hyd at **75%** o gyfanswm costau cymwys eich prosiect.

## Pryd cewch wneud cais

Dylech gyflwyno'ch cais mor fuan ag sy'n bosibl.

Nid oes dyddiad cau ar gyfer grantiau bach, ond bydd angen i chi ganiatáu o leiaf **chwech wythnos gwaith** rhwng dyddiad cyflwyno'r cais a'r dyddiad pan rydych am ddechrau eich prosiect.

Bydd ein rhaglen Grantiau Bach yn cau dros-dro tra ein bod yn adolygu sut yr ydym yn dosbarthu arian Loteri. Y dyddiad olaf byddwn yn derbyn ceisiadau Grantiau Bach fydd Dydd Mercher, 10<sup>fed</sup> o Orffennaf 2019 am 5pm. Caiff benderfyniadau eu cyfathrebu erbyn Dydd Mercher 31<sup>ain</sup> o Orffennaf 2019.

## Pa mor aml y cewch wneud cais

Gallwch ddal un "grant byw" o'r maes gwaith hwn ac o un maes gwaith arall o dan *Grantiau'r Celfyddydau ar gyfer Sefydliadau* mewn unrhyw gyfnod o ddeuddeg mis. Rydyn ni'n defnyddio'r ymadrodd "grant byw" i olygu cais am brosiect a gafodd cyllid gennym ac sy'n dal i fod ar waith. Byddwn ni'n defnyddio dyddiad dechrau'r prosiect cyntaf a gafodd gyllid gennym i gyfrif dechrau'r cyfnod o ddeuddeg mis.

Cysylltwch â'n Tîm Grantiau a Gwybodaeth os ydyn ni wedi rhoi grant i chi o'r blaen a'ch bod chi'n ansicr a ydych chi'n gymwys i wneud cais eto nawr.

## Sut i wneud cais

Rhaid ichi drafod eich prosiect gyda ni cyn inni anfon ffurflen gais atoch.

Os oes gennych brosiect y credwch y gallai fod yn gymwys dan y maes ariannu hwn, e-bostiwch eich syniadau prosiect i: [datblygu@celf.cymru](mailto:datblygu@celf.cymru)

Cofiwch gynnwys y manylion canlynol:

- eich enw
- teitl y prosiect
- disgrifiad o'ch prosiect
- faint o arian sydd arnoch ei angen?
- lleoliad y prosiect

Rhaid cyflwyno ceisiadau gan ddefnyddio ein system ymgeisio ar-lein.

Os na allwch gyflwyno'ch cais ar-lein, er enghraifft, os ydych chi'n anabl neu os nad oes cyfrifiadur ar gael i chi, cysylltwch â'n Tîm Grantiau a Gwybodaeth. Byddwn ni'n gweithio gyda chi i ddod o hyd i ddull eraill o wneud cais. Gallwn eich cynorthwyo hefyd os nad Cymraeg neu Saesneg yw eich iaith gyntaf.

## Oes angen rhagor o gyngor arnoch?

Mae gennym Daflenni Gwybodaeth a dogfennau canllaw i'ch helpu chi gyda gwahanol agweddau ar y broses o ymgeisio, neu i ddarparu cyngor ar faterion penodol. Mae'r rhain ar gael ar ein gwefan. Efallai y bydd y canlynol o ddefnydd wrth i chi baratoi'ch cais ar gyfer y maes gwaith Datblygu Busnes a Sefydliadol:

- [Nodiadau Cymorth ar gyfer ceisiadau Datblygu Busnes](#)
- [Taflen Wybodaeth: Gwneud eich cynhyrchiad yn hygyrch i gynulleidfa eang](#)
- [Cyngor Celfyddydau Cymru Arweiniad Cydraddoldeb](#)

Os oes gennych ragor o gwestiynau am y cais, ffoniwch ein Tîm Grantiau a Gwybodaeth ar 0845 8734 900 neu e-bostiwch: [grantiau@celf.cymru](mailto:grantiau@celf.cymru)